| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 23 Ionawr 2019 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| Awdur yr Adroddiad: | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| Teitl: | Archwiliad Mewnol o'r Gwasanaeth Cofrestru |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?
   Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am adroddiad diweddar yr Adain Archwilio Mewnol am y Gwasanaeth Cofrestru a dderbyniodd raddfa Sicrwydd 'Isel'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?
   Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno y bydd yn derbyn ac yn trafod pob adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol sy'n derbyn graddfa Sicrwydd 'Isel' fel eu bod yn gallu trafod y canlyniad a derbyn sicrwydd y gwneir gwelliannau.

3. Beth yw argymhellion yr adroddiad?
   Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad ac yn penderfynu a oes angen adroddiadau diweddaru pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

4. Manylion yr Adroddiad
   Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

   Roedd yr adolygiad o'r Gwasanaeth Cofrestru yn cynnwys: deddfwriaeth, cyfuno'r rhanbarthau, trefniadau rheoli, incwm a rheolaethau ariannol eraill, monitro'r gyllideb a pherfformiad a gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae ein hadolygiad yn dod i'r casgliad bod gan y Gwasanaeth rai rheolaethau da ar waith, yn enwedig o ran eu perfformiad, fodd bynnag, dim ond graddfa 'sicrwydd isel' gallwn ei roi oherwydd y trefniadau incwm gwan a'r angen i'r Gwasanaeth foderneiddio a gweithio mewn ffordd fwy corfforaethol.

   Rydym wedi derbyn ymateb positif i'n hadolygiad ac mae camau gweithredu eisoes ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad o ran cynnig ar gyfer newid gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae gwaith yr adain archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i'r cyngor mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau. Bydd yr adain Archwilio Mewnol yn dilyn y camau gweithredu a gytunwyd i sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud i leihau'r risgiau a nodwyd. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn am adroddiadau diweddaru i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu gwella.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.